CANLLAWIAU CYNLLUNIO (CYMRU)

NODYN CYNGOR TECHNEGOL (CYMRU) 14

# CYNLLUNIO'R ARFORDIR

Y Swyddfa Gymreig



£2.50

Mawrth 1998

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (TANs) sy'n cydategu "Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio".

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth yr Adran Gynllunio, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ neu drwy ffonio (01222) 823585.

**Mae copïau pellach o'r nodyn hwn ar gael oddi wrth:**

Y Llyfrfa Oriel The Stationery Office
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA
01222 395548 Ffacs 01222 384347

ISBN 0 7504 2279 3

© Hawlfraint y Goron 1998
Cyhoeddwyd Gyntaf 1998

ISBN 0-7504-2279-3

9 780750 422796 00250

# Cynnwys

*Rhif y Paragraff*


**Cyflwyniad** .......... 1

**Y Glannau** .......... 3

**Materion Allweddol** .......... 8

**Cynllunio'r Glannau** .......... 12

**Hamdden** .......... 15

**Arfordiroedd Treftadaeth a Grwpiadau Arfordirol Anstatudol** .......... 19

**Dileu Cyngor** .......... 21

**Cynlluniau Rheoli Traethlin** .......... *Atodiad A*

**Arolwg Amddiffyn yr Arfordir - Cymru** .......... *Atodiad B*

## Cyflwyniad

1. Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â 'Chanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio'. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gymryd Canllawiau Cynllunio, Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyrau i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a chânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Arolygwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio wedi'u galw i mewn ac apelau.

2. Mae'r dogfennau a restrir yn y golofn Cyfeiriad yn yr ymyl yn cynnig gwybodaeth a ddylai gael ei darllen ar y cyd â'r TAN.

## Y Glannau

3. Yn gyffredinol, darn o dir a môr cyfagos yr ystyrir eu bod yn gyd-ddibynnol yw'r glannau. Mae'r glannau'n barth cymhleth a deinamig. Gellir diffinio'r prosesau ffisegol sydd gyda'i gilydd yn cynhyrchu'r traethau, y twyni, y fflatiau llaid, y clogwyni a'r glannau creigiog fel tir, rhynglanwol ac islanwol, tra bo'r parth arfordirol a'r parth isarfordirol yn gategorïau o feini prawf biolegol sy'n gysylltiedig â dylanwad amodau morwrol. Mae meini prawf cyfreithiol megis diffiniadau o dir, blaendraeth, a gwely'r môr yn adlewyrchu defnydd pobl ar y glannau. (Mae Ffigur 1 yn dangos y cymhlethdod hwn ar ffurf diagram).

4. Mater i bob awdurdod cynllunio lleol yw ystyried a diffinio'r glannau mwyaf priodol yn ei ardal. Am ei bod yn bosibl na fydd ffiniau'r awdurdodau lleol yn cyfateb â nodweddion a phrosesau'r arfordir, dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â'r awdurdodau cyffiniol a chan wybod mai graddfa ddaearyddol y prosesau ffisegol arfordirol a'r gweithgareddau dynol sy'n gysylltiedig â'r arfordir sy'n pennu terfynau cyffredinol y glannau. At ddibenion cynllunio defnydd tir, y marc distyll cymedrig yw terfyn y glannau ar ochr y môr fel rheol, ond rhwng y marc penllanw a'r marc distyll mae angen fel arfer i'r system gynllunio weithredu ar y cyd ag ystod o ddulliau sectoraidd o reoli datblygiadau arfordirol a morol.

5. Yn gyffredinol mae penderfyniadau ar gynigion datblygu islaw'r marc distyll y tu allan i gwmpas y system gynllunio, ac yn cael eu rheoli yn hytrach yn ôl y math o weithgarwch. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cloddio agregau, sy'n destun y weithdrefn anstatudol ynglŷn â Barn y Llywodraeth ar hyn o bryd, a thrwyddedau ar gyfer olew a nwy, sy'n cael eu rhoi gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Er hynny, mae'n hanfodol y dylai'r awdurdodau cynllunio gydnabod a chymryd i ystyriaeth arwyddocâd prosesau ffisegol ar yr arfordir y mae'n anochel eu bod yn mynd y tu hwnt i'r ffiniau cyfreithiol hyn, yn ogystal ag ystyried y newidiadau a all effeithio ar rannau eraill o'r system ddeinamig hon. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cydnabod y gall datblygiadau ar y lan gael effaith yn aml oddi ar y lan: mae hyn yn arbennig o wir yn gyfagos â darpar Ardal Arbennig Cadwraeth (AAC) forol. Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg, gall fod yn briodol diffinio parth morwrol sy'n cynnwys "man ddylanwad" oddi ar y lan, yn ogystal â pharth arfordirol ar y lan.

*Cyfeiriad*

*'Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio', paragraffau 141 i 146*

*Rendel Geotechnics, 'Coastal Planning and Management: A Review', Gwasg Ei Mawrhydi, Llundain, 1993*

*Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 'Moroedd, Glannau ac Arfordiroedd', 1996*


*'Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd' (FEPA), 1985*

*Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, 'Controls over the Deposit of Materials at Sea and Approval of Oil Dispersants', FEPA, 1985, Rhan II*

*'Rheoliadau (Cynhyrchu) Petrolewm (Mannau Tua'r Tir)', 1991*

*'Rheoliadau (Cynhyrchu) Petrolewm (Mannau Tua'r Môr)', 1988*

*'Rheoliadau (Diwygio) (Cynhyrchu) Petrolewm (Mannau Tua'r Môr)', 1990*




**FFIGUR 1: Y Glannau**

6. Mae angen i'r awdurdodau cynllunio lleol fod yn ymwybodol o faterion yr arfordir ar ddwy raddfa - sef ar y safle a'i gyffiniau, ac yn nhermau'r cefndir ehangach. At ddibenion cynllunio ar hyd darnau agored o'r arfordir, gellir amlinellu hyd a lled dylanwad prosesau ffisegol sy'n effeithio ar yr arfordir yn eithaf pendant yn ôl celloedd neu is-gelloedd gwaddodol (Ffigur 2). Mewn aberoedd, mae cyrhaeddiad y llanw i fyny'r afon yn ffin bwysig.

*Cyfeiriad*

*H R Wallingford, 'Coastal Management: Mapping of Littoral Cells', Adroddiad SR328, Wallingford, 1993*

7. Gall prosesau ffisegol a chyflwr y tir ar yr arfordir fod yn hanfodol i greu a chynnal safleoedd a nodweddion cadwraeth a hamdden. Gall ymyrryd â'r prosesau hyn greu canlyniadau ar gyfer cydbwysedd cyffredinol y system ffisegol, a all gymryd peth amser i ddod i'r amlwg; ac er mai dyletswydd y datblygydd yw dangos bod modd datblygu safle yn foddhaol, gan roi sylw i'r materion hyn, mae angen o hyd i'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr effeithiau posibl hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

## Materion Allweddol

8. Bydd yr ystyriaethau cynllunio yn amrywio yn ôl natur y morlin, ond mae yna nifer o faterion penodol mewn perthynas â'r glannau y dylai'r system gynllunio fynd i'r afael â hwy o dan y penawdau canlynol, sef:

i. Cynigion ar gyfer Datblygu:

a. natur cyflwr y tir a'r prosesau ffisegol, a'r angen posibl am waith adfer ac amddiffyn;

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru), 'Datblygu ar Dir Ansad'*

b. yr effeithiau tebygol ar brosesau ffisegol a biolegol ar hyd yr arfordir;

c. yr effeithiau posibl ar adnoddau mwynol, dŵr a chadwraeth; yn ogystal ag ar dir amaethyddol o ansawdd uchel; a

d. unrhyw effaith weledol bosibl o'r tir ac o'r môr.

ii. Cadwraeth Natur a'r Tirlun:

a. rôl prosesau ffisegol a biolegol wrth greu, cynnal a newid nodweddion o werth cadwraeth natur a'r tirlun;

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5, 'Cadwraeth Natur a Chynllunio', 1996*

b. effeithiau polisïau statudol a pholisïau eraill ynglŷn â chadwraeth natur a thirlun ar y glannau, y mae'n bosibl nad ydynt bob amser yn cydgyffwrdd â'r marc distyll; ac

c. pwysigrwydd cyflawnder a nodweddion arbennig Gwarchodfeydd Natur Morol, darpar AAC morol ac AAC arfordirol, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a Safleoedd Ramsar. Dylid cadw Cyfeirebau'r GE sy'n berthnasol i waith cynllunio ar y glannau mewn cof bob amser.


*76/160/EEC Dŵr Ymdrochi*

*79/409/EEC Cadwraeth Adar Gwyllt*

*85/337/EEC Asesu Effeithiau Amgylcheddol*

*91/271/EEC Trin Dŵr Gwastraff Trefol*

## FFIGUR 2: Ffiniau Celloedd Gwaddodion Pwysig




*Ffynhonnell: (Ar ôl H.R. Wallingford, 1993)*

36.97/8 Y Swyddfa Luniadu: Mapiau a Graffeg, Y Swyddfa Gymreig

iii. Hamdden:

a. prif rôl prosesau ffisegol wrth greu, cynnal a newid adnoddau hamdden megis traethau a thwyni;

b. effeithiau cyfleusterau hamdden ar sefydlogrwydd geomorffoleg yr arfordir.

9. Yn ychwanegol, bydd angen ystyried cyfres o faterion mwy cyffredinol yn ofalus hefyd ar y glannau lle bo'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig ag agweddau defnydd tir ar unrhyw ddatblygiad arfaethedig, neu lle ceir effaith bosibl oddi ar y lan. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft: gwaredu gwastraff a rheoli llygredd; cloddio mwynau; adnoddau ynni; mordwyo; pysgodfeydd; a gwaith amddiffyn yr arfordir a gwaith peiriannu arall.

10. Mae yna rai ystyriaethau sy'n benodol i'r arfordir y bydd angen i'r awdurdodau cynllunio eu hymgorffori yn y fframwaith cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. ar y lan:

a. y peryglon i unrhyw fath o ddatblygiad sy'n gysylltiedig â'r prosesau ffisegol a chyflwr tir problemus;

b. effaith debygol unrhyw ddatblygiad ar y prosesau a'r nodweddion geomorffolegol ac ar nodweddion pwysig y parthau arfordirol ac is-arfordirol;

ii. oddi ar y lan, yn y parth rhynglanwol, a'r ymylon morol, balans gwaddodion[1] y system ffisegol; a

iii. sensitifrwydd yr amgylchedd arfordirol yn gyffredinol i newid naturiol neu ddylanwadau dynol.

Bydd ystyried y materion hyn yn caniatáu i'r awdurdodau cynllunio lleol adlewyrchu amrywiadau yn yr amodau ffisegol a biolegol ar hyd eu darnau hwy o arfordir yn hytrach na mabwysiadu ymagwedd unffurf at gynllunio'r arfordir. Hefyd bydd yn caniatáu iddynt ystyried effeithiau, gan gynnwys effeithiau cronnol, cynigion datblygu ar safleoedd o ddiddordeb cadwraeth natur a thirlun.

***Cyfeiriad***

*92/43/EEC Cadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 16, 'Chwaraeon a Hamdden'*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 13, 'Twristiaeth', 1997*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8, 'Ynni Adnewyddadwy', 1996*

*Rendel Geotechnics, 'Coastal Planning and Management: A Review of Earth Science Information Needs', Gwasg Ei Mawrhydi, 1995*

*Rendel Geotechnics, 'Earth Science Information Needs for Sustainable Coastal Planning and Management', Gwasg Ei Mawrhydi, 1995*

*'Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio', 1996*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5, 'Cadwraeth Natur a Chynllunio', 1996*

[1] *Swm y gwaddodion sy'n mynd i mewn ac allan o ardal ddiffiniedig ar y glannau. Fel arfer, ni fydd yn ymarferol datblygu balans wedi'i feintoli'n llawn, ond dylai fod modd sicrhau syniad cyffredinol o natur ac arwyddocâd cymharol symudiad y gwaddodion mewn perthynas â nodweddion yr arfordir, gan ganiatáu argraff gyffredinol o erydiad a chroniant ar hyd yr arfordir.*

11. Dylid diffinio ardaloedd arfordirol sy'n debygol o fod yn addas i'w datblygu, a'r rhai lle ceir cyfyngiadau sylweddol neu y credir eu bod yn anaddas. Ni ddylai polisïau mewn cynlluniau datblygu ddarparu ar gyfer datblygu ar yr arfordir nad oes rhaid cael lleoliad arfordirol iddo. Mae'n bwysig cydnabod hefyd y dylid cyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur, neu oherwydd eu tirluniau naturiol neu hanesyddol; ac y gall cyfleoedd i ddatblygu ar yr arfordir gael eu cyfyngu beth bynnag gan amgylchiadau ffisegol, megis perygl llifogydd, erydu ac ansadrwydd tir. Bydd rhaid pwyso a mesur graddfa'r risg yn ofalus a bydd angen polisïau penodol i reoli neu gyfyngu datblygiadau mewn ardaloedd arfordirol isel; ar dir sy'n agos at glogwyni sy'n erydu neu forliniau eraill sy'n erydu; ac ar dir mewn ardaloedd arfordirol lle ceir ansadrwydd. Os na fydd digon o wybodaeth ar gael i'w diffinio, ar y datblygydd y mae'r baich i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol i ddangos y gellir datblygu safleoedd arfaethedig yn ddiogel heb unrhyw effeithiau andwyol o bwys. Mae Ffigur 3 yn cynnig crynodeb o'r canllawiau cyffredinol, ac yn awgrymu'r mathau o ymagwedd a all fod yn briodol ar gyfer y mwyafrif o ddarnau o'r morlin.

## Cynllunio'r Glannau

12. Wrth baratoi'r cynllun datblygu, dylai'r awdurdod cynllunio lleol:

- ymgymryd, mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ag asesiad cyffredinol o amodau ffisegol a biolegol yr arfordir, gan ganolbwyntio ar risg, balansau gwaddodol a materion sensitifrwydd (Ffigur 4);
- nodi'r materion cynllunio allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt;
- defnyddio'r wybodaeth a gesglir mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol yn effeithiol:
  - cynllun rheoli traethlin (Atodiad A, a Ffigur 5);
  - cynllun rheoli AAC forol;
  - Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (LEAP); neu
  - cynllun rheoli parthau arfordirol; cydnabod nodau a pholisïau cynllunio o'r fath;
- ac, ystyried y cyfle naill ai i gynhyrchu fframwaith cydategol i hwyluso gwaith i weithredu'r cynlluniau hyn ac i helpu penderfyniadau cyson neu yn enwedig yn achos cynllun rheoli glannau sydd wedi sicrhau cytundeb cyffredinol drwy broses o ymgynghori a thrafod, i gyhoeddi canllawiau cynllunio atodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun datblygu i gyrraedd yr un nodau;
- defnyddio gwybodaeth o Arolwg Amddiffynfeydd Arfordirol y Swyddfa Gymreig (Atodiad B) lle bo'n briodol.

*Cyfeiriad*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 'Datblygu ar Dir Ansad'*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15, 'Datblygu a Pherygl Llifogydd'*

*Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol & c.) 1994 (Y Rheoliadau Cynefinoedd), OS Rhif 1994/2716*

*Y Swyddfa Gymreig/ Adran yr Amgylchedd, 'A Guide to the Conservation (Natural Habitats & c.) Regulations', 1994*

*'Strategy for Flood and Coastal Defence in England and Wales', MAFF/ Y Swyddfa Gymreig, 1993*

*'Shoreline Management Plans: A guide for coastal defence authorities', MAFF/ Y Swyddfa Gymreig/ Asiantaeth yr Amgylchedd, 1995*

*Adran yr Amgylchedd, 'Coastal Zone Management: Towards Best Practice', 1996*

## FFIGUR 3: Crynodeb o ymagwedd at gynllunio'r arfordir a all fod yn briodol i leoliadau dethol

| Lleoliadau | Cynllun Datblygu | Rheoli Datblygu |
|---|---|---|
| • clogwyni sy'n erydu'n gyflym<br>• llethrau ansad sy'n symud<br>• mannau isel sydd heb eu diogelu<br>• amddiffynfeydd arfordirol naturiol (e.e. twyni)<br>• arfordiroedd o sensitifrwydd uchel iawn i uchel | Yr ardaloedd sydd lleiaf addas i'w datblygu oherwydd yr amodau ffisegol. Cyfyngiadau mawr ar gynigion yn y cynllun datblygu. | Os ystyrir datblygiad dylid ei ragflaenu gan ymchwiliad manwl, asesiad llawn o'r risgiau a/neu astudiaeth amgylcheddol. Mae'n bosibl y bydd angen gwrthod llawer o geisiadau cynllunio yn yr ardaloedd hyn ar sail y problemau ffisegol posibl. |
| • clogwyni sy'n erydu<br>• llethrau ansad posibl<br>• mannau isel gyda safon isel o amddiffynfeydd môr<br>• twyni<br>• morfeydd heli<br>• blaendraethau mewn parthau cludo gwaddodion pwysig<br>• arfordiroedd o sensitifrwydd uchel i gymedrol | Yr ardaloedd sy'n debygol o fod o dan gyfyngiadau sylweddol oherwydd yr amodau ffisegol. Dylai cynigion yn y cynllun datblygu nodi a chymryd i ystyriaeth natur y problemau posibl a mynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol addas. | Bydd angen astudiaeth i ragchwilio'r safle ac yna ymchwiliad manwl o'r safle gan gynnwys asesiad risg a/neu astudiaeth amgylcheddol, cyn cyflwyno cais cynllunio. |
| • mannau y tu ôl i glogwyni sy'n erydu<br>• cyflwr tir problemus<br>• aberoedd<br>• blaendraethau | Ardaloedd a all fod yn addas i'w datblygu neu beidio ond mae'n bosibl y bydd angen ymchwiliadau a gwaith monitro cyn gwneud unrhyw gynigion yn y cynllun datblygu. | Mae angen ymchwilio a monitro'r ardaloedd hyn i benderfynu'r risgiau, y balans gwaddodion, neu'r sensitifrwydd. Dylid osgoi datblygu oni bai bod tystiolaeth ddigonol bod yr amodau'n addas yn cael ei darparu. |

*Sylwer: Bydd addasrwydd darn penodol o'r arfordir ar gyfer datblygiad hefyd yn adlewyrchu gwerth cadwraeth a phwysigrwydd erydiad yn y fan honno i'r cyflenwad gwaddodion ar y glannau.*


*(Ffynhonnell: Rendel Geotechnics, 1995)*

## FFIGUR 4: Detholiad o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â gwyddorau daear mewn gwahanol amgylcheddau arfordirol

| Amgylchedd Arfordirol | Materion Risg | Materion Balans Gwaddodol | Materion Sensitifrwydd |
|---|---|---|---|
| Aberoedd | • llifogydd<br>• gwaddodi<br>• erydu sianeli<br>• amodau sylfeini problemus | • gwaddodion mewn cyrsiau dŵr, perygl uwch o lifogydd a phroblemau mordwyo<br>• gwaredu deunyddiau wedi'u treillio ar y tir neu yn y môr<br>• cynnal amddiffynfeydd arfordirol naturiol, e.e. fflatiau llaid a morfeydd heli<br>• effeithiau cloddio mwynau o'r blaendraeth ar erydiad a pherygl llifogydd<br>• effeithiau pentyrrau o fwynau ar storfeydd gorlifdiroedd | • creu a chynnal safleoedd cadwraeth<br>• effaith cynnal sianeli, amddiffynfeydd rhag llifogydd a chloddio mwynau ar safleoedd cadwraeth<br>• effaith codiad yn lefel y môr ar berygl llifogydd |
| Tiroedd Isel Arfordirol | • llifogydd | • cynnal amddiffynfeydd arfordirol naturiol, e.e. fflatiau llaid, morfeydd heli, traethau a thwyni<br>• cynnal traethau amwynder a thwyni<br>• effeithiau cloddio mwynau o'r blaendraeth ar erydiad a pherygl llifogydd | • creu a chynnal safleoedd cadwraeth<br>• effeithiau amddiffynfeydd rhag llifogydd ar safleoedd cadwraeth<br>• effaith codiad yn lefel y môr ar berygl llifogydd |
| Clogwyni Arfordirol | • tirlithriadau<br>• enciliad clogwyni | • cyflenwad gwaddodion i amddiffynfeydd arfordirol naturiol e.e. fflatiau llaid, morfeydd heli, traethau a thwyni<br>• cyflenwad gwaddodion i draethau a thwyni amwynder<br>• effeithiau cloddio mwynau ar erydiad a pherygl llifogydd | • creu a chynnal safleoedd cadwraeth<br>• effeithiau diogelu'r arfordir ar safleoedd cadwraeth<br>• effaith codiad yn lefel y môr ar gyflymder erydiad<br>• diogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel |
| Twyni | • tywod yn cael ei chwythu gan y gwynt<br>• llifogydd | • cyflenwad gwaddodion a chynnal amddifynfeydd arfordirol naturiol e.e. traethau<br>• cyflenwad gwaddodion a chynnal traethau a thwyni amwynder<br>• effeithiau cloddio mwynau ar erydiad a pherygl llifogydd | • creu a chynnal safleoedd cadwraeth<br>• effeithiau diogelu'r arfordir a chloddio mwynau ar safleoedd cadwraeth<br>• effeithiau codiad yn lefel y môr ar gyflymder erydiad |

*Ffynhonnell: Rendel Geotechnics, 1995*

## FFIGUR 5: Cynlluniau'r Arfordir




*Ffynhonnell: Ar ôl MAFF 1995*

*Cyfeiriad*

13. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod ganddynt wybodaeth a chyngor digonol i benderfynu ar ddyraniadau tir ar y glannau, a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r prosesau ffisegol a biolegol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, yn ogystal â'r materion mwy cyfarwydd megis ansawdd a chymeriad safleoedd o bwysigrwydd i gadwraeth natur a'r tirlun. Er hynny, mae angen iddynt gadw mewn cof mai cyfrifoldeb y datblygydd yn bennaf yw dangos a yw tir yn addas at ddiben penodol. Mae Ffigur 6 yn rhoi manylion ffynonellau defnyddiol ar gyfer gwybodaeth a chyngor am brosesau ffisegol ar yr arfordir.

*Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, 'Coasts and Seas of the United Kingdom' - Region 11 'The Western Approaches: Falmouth Bay to Kenfig'; Region 12 'Wales: Margam to Little Orme'; Region 13 'Northern Irish Sea', 1995*

14. Yn ogystal ag ystyried tirlithriadau, cyflwr tir, erydu a llifogydd, rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau cydgysylltu rhwng cynllunio defnydd tir a strategaethau ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Yn aml bydd adeiladu amddiffynfeydd môr yn arwain at fwy o bwysau i ddatblygu, ond dim ond lleihau'r perygl y mae'r cyfryw amddiffynfeydd, ac nid ei ddileu. Rhaid felly i'r cynllun datblygu gymryd materion amddiffynfeydd arfordirol i ystyriaeth yn llawn, a dylai'r awdurdodau cynllunio lleol sicrhau hefyd eu bod yn rhoi sylw digonol i'r strategaeth amddiffyn ar gyfer yr arfordir wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli datblygu ar y glannau.

## Hamdden

15. Dylai polisïau yn y cynllun datblygu ar gyfer datblygu cyfleusterau marina a chyfleusterau eraill gael eu seilio ar asesiad o allu'r amgylchedd lleol, ar y tir ac oddi ar y lan, i ymdopi â hamdden sy'n seiliedig ar ddŵr. Dylai hyn gynnwys ystyried y peryglon posibl o lygredd yn y môr yn ogystal â threfniadau ar y lan ar gyfer mynediad a pharcio. Dylai unrhyw ddatblygu cysylltiedig gael ei asesu ar wahân, yn ôl ei ragoriaethau ei hun, gan gymryd i ystyriaeth a oes angen ei leoli ar yr arfordir.

*'Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio', 1996*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 16, 'Chwaraeon a Hamdden'*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru), 'Trafnidiaeth'*

16. Dylai polisïau yn y cynllun datblygu hybu ailddefnyddio dociau segur fel rhan o adnewyddu ardal, tra'n cadw ac yn adfer tirnodau a strwythurau o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archaeolegol arbennig. Hefyd gallai defnyddio tir amaethyddol o ansawdd wael sydd o werth ecolegol isel ar ymyl dŵr llanw gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiadau sy'n seiliedig ar ddŵr.

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru), 'Trafnidiaeth'*

*Nodyn Cyngor Technegol (Cymru), 'Datblygu Tir Halogedig'*

17. Bydd angen ystyried effaith cyfleusterau hamdden ar y lan ar ffurf tai clybiau, glanfeydd a llithrfeydd, yn enwedig ar arfordir sydd heb ei ddatblygu. Fel rheol dylid annog cadw cyfleusterau traddodiadol sy'n gysylltiedig â chychod (e.e. iardiau cychod a thai cychod) yn hytrach na'u colli at ddibenion eraill nad oes angen lleoliad wrth ymyl dŵr ar eu cyfer.

18. Dylai mynediad cyhoeddus i'r arfordir fod yn un o'r egwyddorion sylfaenol, oni ellir dangos bod hyn yn andwyol i gadwraeth natur, yn anymarferol neu'n anghydnaws â'r defnydd o'r tir cyfagos. Mae hyn yn gymwys i arfordir wedi'i ddatblygu ac arfordir

## FFIGUR 6: Ffynonellau Gwybodaeth a Chyngor

| Ystyriaeth Allweddol | Gwybodaeth | Cyngor |
|---|---|---|
| Peryglon: Llifogydd o'r Llanw | • Mapiau A.105 Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Arolwg Amddiffynfeydd Môr Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Arolwg Amddiffyn yr Arfodir, y Swyddfa Gymreig<br>• TAN(W)15 Datblygu a Pherygl Llifogydd<br>• Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd | • Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Grwpiau Celloedd Arfordirol<br>• Y Swyddfa Gymreig |
| Peryglon: Tirlithriadau ac Enciliad Clogwyni | • Cynlluniau Rheoli Traethlin<br>• Cronfa Ddata Genedlaethol Tirlithriadau<br>• Mapiau Arolwg Daearegol Prydain<br>• Ffotograffau o'r Awyr<br>• TAN(W) Datblygu ar Dir Ansad | • Adran Gwasanaethau Technegol<br>• Grwpiau Celloedd Arfordirol<br>• Y Swyddfa Gymreig |
| Peryglon: Cyflwr Tir Problemus | • Mapiau a Chofnodion Arolwg Daearegol Prydain<br>• Cofnodion Treiddbyllau Arolwg Daearegol Prydain<br>• Mapiau Arolygon Priddoedd<br>• Mapiau a Chofnodion Hanesyddol | • Arolwg Daearegol Prydain<br>• Ymgynghorwyr Geotechnegol<br>• Adran Gwasanaethau Technegol |
| Balans Gwaddodol | • Cynlluniau Rheoli Aberoedd<br>• Cynlluniau Rheoli Traethlin<br>• Mapiau a Chofnodion Arolwg Daearegol Prydain<br>• Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd | • Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Grwpiau Celloedd Arfordirol<br>• Adran Gwasanaethau Technegol<br>• Asiantaethau Cadwraeth |
| Sensitifrwydd | • Cynlluniau Rheoli Traethlin<br>• Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Cynlluniau Rheoli'r Glannau<br>• Mapiau a Chofnodion yr Asiantaethau Cadwraeth | • Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Asiantaethau Cadwraeth<br>• Fforymau Arfordirol<br>• Grwpiau Celloedd Arfordirol |

*Ffynhonnell: Rendel Geotechnics 1995 (rhan)*

*Cyfeiriad*

heb ei ddatblygu. Pryd bynnag y bo'n briodol, dylai datblygiadau newydd a chynlluniau adfer geisio cynnwys mynediad cyhoeddus, drwy rwymedigaethau cynllunio, fel nodwedd bositif ar y datblygiad.

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 106*

## Arfordiroedd Treftadaeth a Grwpiadau Arfordirol Anstatudol

19. Mae Arfordiroedd Treftadaeth, dynodiadau anstatudol a ddiffinnir gan yr awdurdodau lleol drwy ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn cynnig offeryn rheoli ar gyfer cydbwyso gofynion cadwraeth a mynediad ar y glannau. Oherwydd ansawdd eu tirlun arfordirol y cânt eu dynodi yn bennaf, ond serch hynny, maent yn hoelio sylw hefyd ar brosesau ffisegol y tir a'r môr, ac ar gynllunio a rheoli'r glannau yn sgil hynny.

*'Heritage Coasts - A Guide for Councillors and Officers' (CCP475), Y Comisiwn Cefn Gwlad, 1995*

20. Gall cynadleddau rhanbarthol, Strategaethau Aberoedd neu grwpiadau eraill o awdurdodau cynllunio lleol a chyrff sydd â diddordeb fod yn ddull o wella gwybodaeth am brosesau arfordirol, mireinio'r materion cynllunio allweddol, helpu i gydgysylltu polisïau ar gyfer cadwraeth, amddiffyn yr arfordir a datblygu ar y glannau. Mae Grwpiau Amddiffyn yn Arfordir ynghyd â'r Swyddfa Gymreig a chyrff perthnasol eraill yn cefnogi Fforwm Amddiffyn yr Arfordir sy'n fecanwaith ar gyfer edrych ar gynllunio amddiffynfeydd arfordirol yn eu cefndir ehangach. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru bellach wedi sefydlu Fforwm Arfordirol i Gymru sy'n cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn i roi cyngor ar themâu a phynciau morwrol i helpu i lunio polisïau. Anogir awdurdodau lleol, asiantaethau statudol a chyrff eraill i gynhyrchu cynlluniau rheoli glannau sy'n gyfoes ac yn berthnasol, a dylent feithrin perthnasau gweithio agos i sicrhau bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud ynghylch datblygu a chadwraeth ar yr arfordir.

## Dileu Cyngor

21. Mae Tabl 1 ac Atodiadau 1, 2 a 3 o Nodyn Cyfarwyddyd Polisi 20 'Coastal Planning' wedi'u dileu.

## CYNLLUNIAU RHEOLI TRAETHLIN

A1. Mae Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) yn nodi strategaeth ar gyfer amddiffyn arfordirol cynaliadwy o fewn cell waddodol gan gymryd i ystyriaeth brosesau arfordirol naturiol a dylanwadau ac anghenion amgylcheddol dynol ac eraill. Dylai bennu amcanion hefyd ar gyfer rheoli'r traethlin yn y dyfodol.

**Prif Amcanion CRhT**

A2. Y prif amcanion wrth ddatblygu CRhT yw:

- gwella dealltwriaeth o'r prosesau arfordirol o fewn y cell waddodol;
- darogan esblygiad yr arfordir yn y dyfodol;
- nodi'r holl asedau o fewn yr ardal yr ymdrinnir â hi gan y Cynllun y mae newid yn yr arfordir yn debygol o effeithio arnynt;
- nodi'r angen am ymchwil ac ymchwiliadau rhanbarthol neu rai sy'n benodol i safle;
- hwyluso ymgynghori rhwng y cyrff hynny sydd â ddiddordeb yn y traethlin.

A3. Prif amcanion CRhT sydd wedi'i gwblhau yw:

- asesu ystod o ddewisiadau strategol ar gyfer amddiffyn yr arfordir a chytuno ar yr ymagwedd ddethol;
- amlinellu gofynion y dyfodol ar gyfer monitro, rheoli data ac ymchwil sy'n gysylltiedig â'r traethlin;
- bwydo'r broses gynllunio statudol a gwaith cynllunio cysylltiedig ar y glannau;
- nodi cyfleoedd ar gyfer cynnal a gwella amgylchedd naturiol yr arfordir, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw dargedau penodol a bennir gan ddeddfwriaeth neu unrhyw dargedau a bennir yn lleol;
- nodi'r trefniadau ar gyfer ymgynghori parhaus â'r partïon sydd â diddordeb.

**Materion i'w hystyried**

A4. Mae angen rhoi sylw i bedwar mater allweddol wrth baratoi Cynllun Rheoli Traethlin, sef:

- prosesau arfordirol;
- amddiffynfeydd arfordirol;
- defnyddio tir a'r amgylchedd dynol ac adeiledig;
- yr amgylchedd naturiol.

*Atodiad B*

## AROLWG AMDDIFFYN YR ARFORDIR - CYMRU

B1. Mae Arolwg Amddiffyn yr Arfordir - Cymru yn ddiweddariad ac yn ehangiad ar Coast Protection Act 1949: Report of Survey (Wales) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1982.

B2. Dwy ran sydd i'r gronfa ddata. Mae'r rhan gyntaf, yr Arolwg Cyffredinol, yn cynnwys rhestr barhaus o natur morlin cyfan Cymru, sy'n nodi yn achos pob darn penodedig:

- a yw wedi'i amddiffyn neu heb ei amddiffyn;
- lle bo wedi'i amddiffyn, natur yr amddiffyniad;
- a yw'r amddiffynfeydd wedi'u dosbarthu fel amddiffynfa fôr neu ddiogelu'r arfordir;
- lle bo heb ei amddiffyn, natur y morlin naturiol;
- y tirfeddiannwr; y corff sy'n gyfrifol am unrhyw amddiffynfeydd;
- y math o dir a'r asedau sydd mewn perygl; ac
- i ba raddau y mae'r darn o forlin yn agored i niwed.

B3. Mae'r darnau wedi'u pennu ar y sail bod ganddynt nodweddion gweddol gyson ar eu hyd, maent wedi'u diffinio drwy gyfrwng cyfeiriadau grid wrth y naill ben a'r llall ac mae iddynt rif cod unigol i'w hadnabod. Lle ceir rhifau cod sy'n dynodi darnau cyfatebol yn naill ai Arolwg Amddiffynfeydd Môr Asiantaeth yr Amgylchedd neu yn yr arolwg gan Railtrack o'u hamddiffynfeydd hwy, mae'r rhain wedi'u defnyddio yn sail ar gyfer y codau yn Arolwg Amddiffyn yr Arfordir er mwyn hwyluso croesgyfeiriadau.

B4. Mae ail ran y gronfa ddata yn ymwneud â'r amddiffynfeydd hynny yn y rhan gyntaf sydd wedi'u dosbarthu fel "Diogelu'r Arfordir" yn unig, ac yn darparu gwybodaeth am eu cyflwr. Yn hyn o beth mae'n cydategu arolwg Amddiffynfeydd Môr Asiantaeth yr Amgylchedd.

B5. Dangosir y darnau penodedig o forlin yn y gronfa ddata ar gyfres o fapiau i helpu i nodi eu lleoliad. Mae adroddiadau ar y gweill i ddisgrifio'r gwaith a wnaed ac i grynhoi'r canlyniadau. Caiff yr arolwg ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i ehangu i gynnwys data arall megis lefelau'r llanw astronomig a'r lefelau môr eithriadol, data am donnau, a gwybodaeth gryno briodol o Gynlluniau Rheoli Traethlin pan fydd y rhain ar gael.